Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 3 Mai 2023, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 65. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mrs M. A. Blakeley-Walker, Miss S. L. Roberts a Ms V. Roberts.

## 66. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS MAWRTH 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol – HW |
| 1608 | BT | 439.50 | Rhentu llinell ffôn a ffioedd galwadau |
| 1612 | Shire Leasing | 337.33 | Lesio system ffôn Avaya – Chwarter 1 2023/24 |
| 1613 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio 17 Chwefror – 16 Mawrth 2023 |
| 1614 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | 2,983.31 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mawrth 2023 |
| 1615 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,464.11 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Mawrth 2023 |
| 1616 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.91 | Cyflogau net – mis Ebrill 2023 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol – GN |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 755.80 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 1 o 10 |
| 1539 | Tesco | 2.94 | Bil ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **16,858.90** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 241.84 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 940.00 |
| Amrywiol | Tocynnau i ddigwyddiad elusennol y Maer | 185,318.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£186,607.26** |

Yn ychwanegol cynghorodd Clerc y Dref fod y Maer wedi gofyn am gyflwyno / cydnabod y symiau roedd hi wedi'u casglu er budd ei thair elusen yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Y ffigur uchafswm fyddai £2,322.39. Er mwyn gwneud y taliadau gofynnodd Glerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau i ryddhau'r arian.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i dalu hyd at £2,322.39 i'r tair elusen.*

**67. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol manbwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen A a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o'r taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1621 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Prydau bwyd i bedwar cynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod ar 21 Ebrill 2023 | 88.00 |
| 1623 | Lawnscience | Triniaeth y Gwanwyn i'r Gerddi Coffa | 42.00 |
| 1624 | Sioned Graham Cameron | Gwasanaethau cyfieithu | 197.55 |
| 1625 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres – mis Ionawr – mis Mawrth 2023 | 97.80 |
| 1626 | Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig | Ffi digwyddiad Diwrnod Calan Mai y Maer ar 6 Mai 2023 | 7,200.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£7,625.35** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**68. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG ARFAETHEDIG I GAU ALAI Y TU CEFN I STRYD Y FRENHINES, Y RHYL.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymgynghoriad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cynnig arfaethedig.*

**69. POLISI CYNGOR TREF Y RHYL YNGHYLCH RHOI CYLLID GRANT I SEFYDLIADAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref ynghylch polisi rhoi cyllid grant y Cyngor Tref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'w aelodau ei ailgadarnhau neu ei ddiwygio'n briodol.

***PENDERFYNWYD*** *ailgadarnhau'r polisi.*

## 70. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 71. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 13 Chwefror 2023 | - Cofnodion rhifau 38 – 50 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 27 Chwefror 2023 | - Cofnodion rhifau 25 - 31 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 72. EITEM YCHWANEGOL: YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA

Hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd ateb i wahoddiad y Cyngor Tref i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ms Eluned Morgan, i ddod i gyfarfod y Cyngor Tref a darllenodd yr ateb ar lafar.

Darllenodd Clerc y Dref amlinelliad ateb a awgrymir i'r Gweinidog i'r aelodau ei gymeradwyo cyn anfon yr ateb.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r ymateb a awgrymwyd, ond i gynnwys holi Cyngor Sir Ddinbych a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch ble'r oedd prosiect yr ysbyty o ran eu blaenoriaethau prosiect nhw.*

## 73. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ………………………

Dyddiad: ………………………